Llangefni Rugby Club Sustainability Policy

Polisi Cynaliadwyedd Amgylcheddol Clwb Rygbi Llangefni

1. Pwrpas

Mae Clwb Rygbi Llangefni wedi ymrwymo i hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol ym mhob agwedd ar ei weithgareddau. Mae'r polisi hwn yn nodi ein dull o leihau effaith amgylcheddol, cydymffurfio â chanllawiau Undeb Rygbi Cymru (URC), a chefnogi nodau cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru.

2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob gweithgaredd clwb, gan gynnwys sesiynau hyfforddi, gemau, digwyddiadau, arlwyo, teithio, a rheoli cyfleusterau. Mae'n cynnwys chwaraewyr, staff, gwirfoddolwyr, cefnogwyr, a phartneriaid.

3. Egwyddorion Arweiniol

- **Cydymffurfiaeth:** Cadw at ganllawiau cynaliadwyedd URC a phob deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol yng Nghymru.
- **Cyfrifoldeb:** Hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol ac atebolrwydd ar draws y clwb.
- **Arweinyddiaeth Gymunedol:** Gweithredu fel enghraifft o arferion cynaliadwy yn y gymuned leol.

4. Nodau Cynaliadwyedd Allweddol

4.1 Lleihau Gwastraff Bwyd

- Gweithio gyda chogyddion a gwirfoddolwyr i gynllunio faint o fwyd sydd ei angen yn gywir ar gyfer digwyddiadau a diwrnodau gemau.
- Annog defnyddio deunyddiau gweini y gellir eu hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu compostio.
- Rhoi bwyd dros ben i elusennau neu fanciau bwyd lleol lle bo'n bosibl.
- Hyrwyddo ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ynghylch lleihau gwastraff bwyd.

4.2 Rheoli Gwastraff

- Darparu biniau wedi'u labelu'n glir ar gyfer ailgylchu a gwastraff cyffredinol o amgylch y clwb a'r caeau.

- Lleihau defnydd plastig untro drwy annog poteli a chynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio.
- Partneru â gwasanaethau gwastraff lleol i sicrhau gwaredu ac ailgylchu priodol.

4.3 Effeithlonrwydd Ynni a Dŵr

- Gosod a chynnal goleuadau ac offer trydan effeithlon o ran ynni.
- Hyrwyddo defnydd cyfrifol o ddŵr mewn ystafelloedd newid, ceginau a chyfleusterau eraill.
- Archwilio opsiynau ynni adnewyddadwy yn unol â mentrau URC a Llywodraeth Cymru.

4.4 Trafnidiaeth Gynaliadwy

- Annog rhannu ceir, beicio, a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ymhlith chwaraewyr a chefnogwyr.
- Archwilio'r posibilrwydd o osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn y clwb.
- Ystyried gwrthbwyso allyriadau ar gyfer teithiau pell lle bo hynny'n ymarferol.

4.5 Caffael a Nwyddau Clwb

- Blaenoriaethu cyflenwyr sy'n arddangos arferion cynaliadwy ac sydd â thystysgrifau cydnabyddedig.
- Defnyddio deunyddiau cyfeillgar i'r amgylchedd ar gyfer nwyddau a chit y clwb lle bo'n ymarferol.

5. Addysg ac Ymgysylltu

- Darparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth cynaliadwyedd i staff a gwirfoddolwyr.
- Rhannu awgrymiadau a diweddariadau cynaliadwyedd drwy wefan a chyfryngau cymdeithasol y clwb.
- Cynnwys timau ieuenctid mewn prosiectau amgylcheddol ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.

6. Monitro a Chyflwyno Adroddiadau

Bydd Pwyllgor y Clwb yn adolygu arferion cynaliadwyedd yn flynyddol. Caiff cynnydd ei adrodd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) a'i rannu gyda'r aelodau. Defnyddir adborth gan aelodau a'r gymuned ehangach i wella mentrau yn barhaus.

7. Adolygiad

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd â chanllawiau URC a deddfwriaeth amgylcheddol Cymru.

Llangefni Rugby Club Sustainability Policy

Polisi Cynaliadwyedd Amgylcheddol Clwb Rygbi Llangefni

1. Purpose

Llangefni Rugby Club is committed to promoting environmental sustainability in all aspects of its operations. This policy outlines our approach to reducing environmental impact, complying with WRU guidelines, and supporting Welsh Government sustainability goals.

2. Scope

This policy applies to all club activities, including training, matches, events, catering, travel, and facility management. It involves players, staff, volunteers, supporters, and partners.

3. Guiding Principles

- Compliance: Adhere to WRU sustainability guidelines and Welsh environmental laws and policies.
- Responsibility: Promote environmental awareness and accountability across the club.
- Community Leadership: Act as a role model for sustainability in the local community.

4. Key Sustainability Goals

4.1 Minimising Food Waste

- Work with caterers and volunteers to plan food quantities accurately for events and match days.
- Encourage the use of reusable or compostable serving materials.
- Donate surplus food to local charities or food banks where possible.
- Promote awareness campaigns around food waste reduction.

4.2 Waste Management

- Provide clearly marked recycling and general waste bins around the clubhouse and grounds.
- Reduce single-use plastics by encouraging reusable bottles and containers.
- Partner with local waste services to ensure proper disposal and recycling.

4.3 Energy and Water Efficiency

- Install energy-efficient lighting and appliances in club facilities.
- Promote responsible water use in changing rooms and kitchens.
- Explore renewable energy options in line with WRU and Welsh Government initiatives.

4.4 Sustainable Transport

- Encourage carpooling, cycling, and public transport for players and supporters.
- Investigate the feasibility of electric vehicle charging points at the club.
- Offset travel emissions for long-distance matches where possible.

4.5 Procurement and Merchandise

- Prioritise suppliers with sustainable practices and certifications.
- Use eco-friendly materials for club merchandise and kits where feasible.

5. Education and Engagement

- Provide sustainability training for staff and volunteers.
- Share sustainability tips and updates via the club's website and social media.
- Involve youth teams in environmental projects and awareness campaigns.

6. Monitoring and Reporting

The Club Committee will review sustainability practices annually. Progress will be reported at the AGM and shared with members. Feedback from members and the community will be used to improve initiatives.

7. Review

This policy will be reviewed annually to ensure it remains aligned with WRU guidance and Welsh environmental legislation.